**Ken Skates AS/MS**
**Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru**
**Minister for Economy, Transport and North Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-1031
Ein cyf/Our ref KS/05856/20

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebiadau

Government.Committee.Business@gov.wales

16 Hydref 2020

Annwyl Janet

Diolch am eich llythyr dyddiedig 28 Medi ynghylch Deiseb P-05-1031 Gwahardd Gwyro Cerbydau Nwyddau Trwm drwy ardaloedd preswyl.

Mae cynnal Rhwydwaith Ffyrdd Strategol Cymru i leihau'r risgiau i ddiogelwch a chadernid y ffyrdd yn ofyniad cyfreithiol y mae'n ddyletswydd ar Weinidogion Cymru ei fodloni. Mae Llywodraeth Cymru wedi clywed beirniadaeth ynghylch oedi ar y rhwydwaith sydd wedi'i achosi gan waith ar y ffyrdd ac wedi gweithredu dros y blynyddoedd diwethaf i fynd i'r afael â'r pryderon hyn. Yr opsiwn a ffefrir ble y bo'n bosibl, ar yr amod ei bod yn ddiogel i wneud hynny, yw i wneud y gwaith drwy gau ffyrdd, yn bennaf dros nos pan fo llai o draffig.

Fodd bynnag, nid yw'n bosibl cynnal gwaith yn ddiogel drwy gau ffyrdd ac mae'n rhaid gwneud dewis. Nid yw'n bosibl cau un lon dros nos gan ei bod yn cymryd oddeutu deuddydd i wneud hyn. Byddai yn rhaid cau un lon drwy'r dydd a'r nos tra bod y gwaith yn digwydd. Yr opsiwn arall yw i gau un ffordd yn gyfangwbl dros nos a gwyro traffig ar lwybr gwyro y cytunwyd arno eisoes. Mae angen i'r awdurdod priffyrdd perthnasol gytuno ar y llwybr gwyro, ac mae'r opsiwn hwn wedi ei ddefnyddio yn y blynyddoedd diwethaf gan darfu llawer llai ar ddefnyddwyr ffyrdd.

Yn olaf, trwy ddatblygu Strategaeth Trafnidiaeth Cymru byddwn yn cydweithio'n agos â'r sector cludo nwyddau a'r sector logisteg i edrych ar ffyrdd newydd ac arloesol o symud nwyddau drwy Gymru, gan gynnwys cyfleoedd i liniaru effeithiau niweidiol Cerbydau Nwyddau Trwm o ran sŵn a llygredd yn yr aer, tra'n sicrhau bod ein gwasanaethau cludo nwyddau cystadleuol a masnachol yn parhau i fod yn hyfwy, sy'n sylfaenol er mwyn cefnogi ein heconomi.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn gywir



**Ken Skates AS/MS**
Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru
Minister for Economy, Transport and North Wales